**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio

SeneddDiwygio@senedd.cymru

11 Mawrth 2024

**Y Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)**

Annwyl David

Yn sgil cyflwyno'r Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) i'r Senedd yn gynharach heddiw, amgaeaf gopi o'r datganiad o fwriad polisi. Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("y Bil"). Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur. O ganlyniad, gall rhai o'r manylion newid.

2. Lluniwyd y datganiad hwn er mwyn helpu'r Senedd yn ystod y broses o graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig.

3. Bydd y Bil yn cyflawni'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd (y Pwyllgor Diben Arbennig) mewn perthynas â chyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer etholiadau'r Senedd. Cafodd y Pwyllgor Diben Arbennig ei sefydlu yn 2021, gyda chylch gwaith i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ac i wneud argymhellion ynghylch cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ei adroddiad, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru* ym mis Mai 2022, a oedd yn cynnwys argymhellion ynghylch cyfarwyddiadau polisi ar gyfer rhoi deddfwriaeth ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026.

4. Diben y Bil (sy'n rhan o becyn o ddiwygiadau i gyflawni argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig) yw gwneud Senedd Cymru ("y Senedd") yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, nod y Bil yw sicrhau bod y Senedd yn cynrychioli cyfansoddiad y boblogaeth o ran rhywedd yn fras, yn enwedig o ran cynrychiolaeth menywod.

5. Cyflwynir sylwedd y Bil yn adran 1. Mae'n mewnosod pedair adran newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") ar ôl adran 7. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn mewnosod adran 7 newydd yn Neddf 2006 yn ogystal â chyfeiriadau yn y Bil a'r datganiad hwn at adran 7 o Ddeddf 2006 at adran 7 fel y'i hamnewidir.

6. Mae'r adran 13 bresennol o Ddeddf 2006 yn arbennig o berthnasol i'r Bil. Mae'n rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch cynnal etholiadau'r Senedd. Mae'r pŵer hwn wedi ei arfer yn flaenorol i wneud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236) (y cyfeirir ato'n aml fel "y Gorchymyn Cynnal Etholiadau"). Fel yr

eglurir isod, o dan y Bil gwneir darpariaeth bellach mewn perthynas ag adrannau newydd 7A a 7B o Ddeddf 2006 gan ddefnyddio’r pŵer yn adran 13 o’r Ddeddf honno.

7. Mae'r Bil yn cynnwys gofynion (yn adrannau 7A a 7B) ynghylch cyfran a gosodiad menywod ar restrau ymgeiswyr a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig ar gyfer etholiadau'r Senedd. I grynhoi, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod rhestrau o'r fath yn cydymffurfio â'r rheolau a ganlyn:

   a. Rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr fod yn fenywod (rheol "fertigol" neu lefel etholaeth)
   b. Ar restr, rhaid i unrhyw ymgeisydd nad yw'n fenyw gael ei ddilyn gan ymgeisydd sy'n fenyw, oni bai ei fod yn olaf ar y rhestr (rheol "fertigol" neu lefel etholaeth)
   c. Rhaid i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig fod yn fenyw (rheol "llorweddol" neu lefel genedlaethol).

   Ni fydd y rheolau fertigol yn gymwys i restr sydd ag ond un ymgeisydd arni. Ni fydd y rheol lorweddol yn gymwys os bydd y blaid yn cyflwyno un rhestr yn unig.

8. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi rhai enghreifftiau o restrau sy'n cydymffurfio a rhestrau nad ydynt yn cydymffurfio:

| Safle ar y rhestr | Enghreifftiau o restrau **sy'n cydymffurfio'n fertigol**<br><br>M – menyw yw'r ymgeisydd<br>NM – nid menyw yw'r ymgeisydd | | |
|---|---|---|---|
| 1 | M | NM | M |
| 2 | NM | M | NM |
| 3 | M | M | M |
| 4 | NM | NM | NM |
| 5 | M | M | M |
| 6 | NM | M | |
| 7 | M | NM | |
| 8 | NM | M | |
| | Enghreifftiau o restrau **nad ydynt yn cydymffurfio'n fertigol** | | |
| 1 | NM | M | M |
| 2 | M | NM | NM |
| 3 | NM | NM | M |
| 4 | M | M | NM |
| 5 | NM | NM | NM |
| 6 | | M | M |
| 7 | | NM | NM |
| 8 | | M | M |
| | *Mae llai na 50% o'r ymgeiswyr yn fenywod* | *Mae angen i'r ymgeisydd yn yr ail safle gael ei ddilyn gan fenyw yn y trydydd safle* | *Mae angen i'r ymgeisydd yn y pedwerydd safle gael ei ddilyn gan fenyw yn y pumed safle* |
| Er mwyn **cydymffurfio'n llorweddol**, rhaid bod gan o leiaf hanner rhestrau plaid fenyw yn y safle cyntaf. Os bydd plaid yn sefyll ymgeiswyr mewn 13 o etholaethau, golyga hyn fod rhaid bod gan o leiaf saith ohonynt fenyw yn y safle cyntaf neu'r unig safle ar y rhestr.<br>Pe bai gan chwech neu lai o restrau plaid fenyw yn y safle cyntaf, ni fyddai'n **cydymffurfio'n llorweddol**. | | | |

9. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer y canlynol:

- creu Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol a gorfodi'r rheol lorweddol, gan gynnwys yr hyn a fydd yn digwydd os na fydd rhestrau plaid yn cydymffurfio â'r rheol. Darperir ar gyfer y materion hyn mewn gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006 (adran 7C);
- darpariaeth benodol sy'n ymwneud ag adrannau 7A a 7B y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006 (adran 7D(1));
- ymgeiswyr ar restrau pleidiau i nodi a ydynt yn fenyw, ai peidio, yn ystod y broses enwebu. Rhaid darparu ar gyfer y gofyniad hwn mewn gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006 (adran 7D(2));
- dull er mwyn ysgogi adolygiad o weithrediad ac effaith y rheolau cwota gan y Senedd yn fuan ar ôl yr etholiad cyntaf pan ddaw'r darpariaethau yn gymwys (adran 2);
- pŵer i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ganlyniadol, ddeilliadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed (adran 3);
- pŵer i wneud gorchymyn i ddod â phrif ddarpariaethau'r Bil i rym (adran 4).

10. Mae'r Bil yn adlewyrchu'r cydbwysedd presennol rhwng y darpariaethau yn Neddf 2006 a'r rhai yn y Gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006. Bydd Deddf 2006 yn parhau i nodi'r gofynion ynghylch rhestrau ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol (adran 7, ynghyd ag adrannau 7A a 7B i'w mewnosod gan y Bil) a bydd manylion y broses ar gyfer gwneud enwebiadau, dangos cydymffurfiaeth â'r rheolau a'u gorfodi yn parhau i gael eu nodi mewn gorchymyn o adran 13. Ar hyn o bryd, mae'r manylion yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol, ond bydd angen gwneud newidiadau yng ngoleuni'r Bil hwn a Biliau eraill sy'n effeithio ar y system etholiadol (os cânt eu deddfu). Disgwylir i'r Gorchymyn gael ei ddiddymu a'i ail-wneud ar gyfer etholiad 2026.

11. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent wedi eu bodloni eu bod yn angenrheidiol a bod modd eu cyfiawnhau.

## Manylion y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil

***Adran 1 – Cyfran a gosodiad menywod ar restrau o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o’r Senedd***

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| Adran 1, adrannau 7C-D i'w mewnosod yn Neddf 2006 ynghyd â'r adran 13 bresennol o Ddeddf 2006<br><br>Disgrifiad o’r Pŵer:<br><br>Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch cynnal etholiadau. Gwneir darpariaeth bellach mewn perthynas ag adrannau newydd 7A a 7B o Ddeddf 2006 gan ddefnyddio’r pŵer yn adran 13 o’r Ddeddf honno.<br><br>Mae'r adrannau newydd 7C a 7D (y mae adran 1 yn eu mewnosod yn Neddf 2006) yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch yr hyn y caniateir neu y mae rhaid darparu ar ei gyfer mewn gorchymyn o dan adran 13. Mae'r ddarpariaeth benodol hon yn ymwneud â'r rheolau a nodir yn yr adrannau 7A a 7B newydd: | Bydd y Gorchymyn, sydd i'w wneud o dan adran 13 i weithredu'r Bil, yn darparu ar gyfer dynodi person yn Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol gan Weinidogion Cymru (adran 7C(1)). Y bwriad yw y bydd y person hwn yn cael ei ddynodi o'r gronfa o Swyddogion Canlyniadau Awdurdodau Lleol na fyddant yn gwasanaethu fel Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn etholiadau'r Senedd. Bydd angen i'r Gorchymyn roi swyddogaethau i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol (a ddisgrifir yn fanylach isod) sy'n gysylltiedig â sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheol lorweddol (adran 7C(2)). Bydd rôl Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn debyg i rôl Swyddog Canlyniadau Etholaethol, gan y bydd y Swyddog Cydymffurfiaeth yn gwirio agwedd ar a yw enwebiadau, ar eu hwyneb, yn cydymffurfio â'r rheolau.<br><br>Er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwiriadau cydymffurfio angenrheidiol, bydd y Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau i'r amserlen etholiadol. Bydd y Gorchymyn yn creu amser ychwanegol rhwng cau'r enwebiadau a chyhoeddi'r datganiad am y sawl a enwebwyd i alluogi rhannu gwybodaeth rhwng y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol at ddibenion gwirio cydymffurfiaeth â'r rheol lorweddol ac i ddatrys unrhyw ddiffyg cydymffurfio heb effeithio'n negyddol ar amserlen yr etholiad.<br><br>Rhagwelir y bydd cyfnod o hyd at dri diwrnod yn briodol ar gyfer y camau ychwanegol y bydd eu hangen. Y bwriad yw y byddai'r hysbysiad etholiad yn cael ei gyhoeddi'n gynharach nag ar hyn o bryd er mwyn caniatáu'r amser ychwanegol hwn o fewn y broses, heb gwtogi'r cyfnod pryd y gellir cyflwyno papurau enwebu, na'r cyfnod rhwng cyhoeddi'r datganiad am y sawl a enwebwyd a diwrnod y bleidlais.<br><br>Rhaid i'r Gorchymyn o dan adran 13 gynnwys gofyniad i ymgeiswyr sy'n sefyll dros blaid wleidyddol gofrestredig nodi a ydynt yn fenyw ai peidio (adran 7D(2)). Mae angen yr wybodaeth hon ar Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth |

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| <ul><li>adran 7C – y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol a gorfodi adran 7B (y rheol lorweddol).</li><li>adran 7D – darpariaeth benodol sy'n ymwneud ag adrannau 7A a 7B y caniateir neu y mae rhaid ei gwneud mewn gorchymyn o dan adran 13.</li></ul> | Enwebiadau Cenedlaethol i ystyried a yw rhestrau pleidiau yn cydymffurfio â'r rheolau fertigol a llorweddol.<br><br>Y bwriad yw y bydd yr wybodaeth hon am rywedd yn rhan o'r gyfres o bapurau enwebu y mae'n ofynnol i ymgeiswyr eu cyflwyno er mwyn sefyll mewn etholiad, ac y bydd yr ymgeisydd yn llofnodi ac yn dyddio'r wybodaeth hon. Pan fydd ymgeisydd yn methu â darparu gwybodaeth am rywedd, bydd ei enwebiad yn annilys.<br><br>Ar ôl i bapur enwebu plaid gael ei gyflwyno, byddai'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) yn ystyried a yw enwebiad y blaid a rhai'r ymgeiswyr ar restr y blaid wedi eu gwneud yn ddilys. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r ymgeiswyr wedi nodi a ydynt yn fenyw ai peidio ac a yw'r rhestr o ymgeiswyr (sydd fel arall wedi eu henwebu'n ddilys) yn cydymffurfio â'r rheolau fertigol. Y bwriad yw y bydd y Gorchymyn yn rhoi sail ychwanegol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar gyfer dyfarnu papur enwebu plaid yn annilys, sef nad yw rhestr y blaid yn cydymffurfio â'r rheolau fertigol. Rhagwelir y bydd cyfle i bleidiau gael eu rhestrau wedi eu gwirio'n anffurfiol gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ar gyfer cydymffurfiaeth yn ystod y cyfnod enwebiadau.<br><br>Caniateir i'r Gorchymyn nodi'r trefniadau mewn cysylltiad ag archwilio'r wybodaeth am rywedd a ddarperir gan ymgeiswyr (adran 7D(1)(b)). Y bwriad yw cyfyngu unrhyw hawliau i archwilio gwybodaeth o'r fath, fel y trefniadau presennol ar gyfer archwilio papurau enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref, i bersonau penodedig ac i gyfnod penodol o amser.<br><br>Y bwriad yw y bydd gwiriadau ar gyfer cydymffurfiaeth â'r rheol lorweddol yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau ac ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol gwblhau ei wiriadau. Ar hyn o bryd, mae'r dyddiad cau ar gyfer enwebiadau'r un fath â'r un ar gyfer tynnu enwau ymgeiswyr yn ôl, felly ar ôl i'r dyddiad hwnnw fynd heibio ac y bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol wedi cwblhau ei wiriadau, bydd y rhestr yn cael ei setlo yn amodol ar bob un o restrau'r blaid yn cydymffurfio â'r rheol lorweddol. Bydd gan y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol rôl hefyd o ran gwirio cydymffurfiaeth â'r rheol lorweddol (adran 7C(3)(b)). Bydd yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol am rywedd ymgeiswyr yn y safle cyntaf neu'r unig safle ar restr, h.y. a yw'r ymgeisydd hwnnw'n fenyw ai peidio. Mae'n bosibl hefyd y bydd |

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| | angen iddynt ddarparu gwybodaeth am ba restrau (os o gwbl) sy'n cynnwys un ymgeisydd yn unig. Bydd y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a yw plaid wleidyddol gofrestredig yn cydymffurfio â'r rheol lorweddol (gan gynnwys a yw plaid yn ddarostyngedig iddi o gwbl, h.y. os bydd wedi enwebu ymgeisydd mewn mwy nag un etholaeth) ac os nad yw'n cydymffurfio, bydd yn ei hysbysu o'r camau i'w cymryd.<br><br>Os bydd plaid yn cydymffurfio â'r rheol lorweddol neu os na fydd yn ddarostyngedig iddi, bydd angen i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, fel y gall y Swyddog Canlyniadau barhau i gynnwys y blaid a'i hymgeiswyr yn y datganiad am y sawl a enwebwyd. Caniateir i'r Gorchymyn nodi manylion yr ohebiaeth i'w chynnal rhwng y Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol.<br><br>Bydd y Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd os na fydd rhestrau plaid yn cydymffurfio â'r rheol lorweddol (adran 7C(3) a (4)). Bwriad y polisi yw y byddai trefn yr ymgeiswyr ar un neu ragor o restrau'r blaid yn cael ei haildrefnu i sicrhau bod y blaid yn cydymffurfio. Byddai'r ymarfer aildrefnu hwn yn golygu y byddai'r person nad yw'n fenyw ar frig rhestr, yn cael ei gyfnewid â'r fenyw yn yr ail safle ar y rhestr honno. Byddai hefyd, o bosibl, yn golygu y byddai'r person yn y trydydd safle yn cyfnewid â'r person yn y pedwerydd safle ac yn y blaen i lawr y rhestr, yn ôl yr angen fel bod y rhestr yn cydymffurfio â'r rheolau fertigol.<br><br>Bwriad y polisi yw y bydd gan bleidiau gyfle i benderfynu pa restr neu restrau o'r rhai a gyflwynwyd ganddynt i'w newid, a phe baent yn methu â gwneud hynny, byddai'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn gwneud y dewis hwnnw ar hap (y gallai fod yn ofynnol ei wneud drwy fwrw coelbren). Fel arfer, ni fydd y camau a gymerir i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn golygu bod unrhyw blaid neu ymgeisydd yn peidio â chael eu henwebu; yn hytrach ni fyddant ond yn newid y drefn y mae ymgeiswyr yn ymddangos ynddi ar restr. Yr eithriad i hyn fyddai pe bai gan y blaid restrau o un. Efallai y bydd angen i ymgeisydd (nad yw'n fenyw) ar restr o un beidio â chael ei enwebu er mwyn sicrhau bod rhestrau'r blaid yn cydymffurfio'n gyffredinol. Fodd bynnag, bwriad y polisi yw mai dim ond fel dewis olaf y byddai angen gwneud hynny (h.y. bwriad y polisi yw y bydd y Gorchymyn yn |

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| | darparu bod rhaid i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol, wrth ddewis pa restrau sydd i'w newid, ddisbyddu rhestrau o fwy nag un sydd ag ymgeisydd nad yw'n fenyw yn y safle cyntaf i ddechrau, cyn dewis unrhyw restrau o un).<br><br>Bydd y Gorchymyn hefyd yn nodi swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau Etholaethol wrth ymdrin â materion o ddiffyg cydymffurfio (bydd angen iddynt aildrefnu trefn ymgeiswyr ar restr gan y bydd ganddynt wybodaeth am rywedd yr holl ymgeiswyr ar y rhestr a bwriad y polisi yw y bydd y Gorchymyn yn nodi'r rheolau ar gyfer sut y byddant yn gwneud hynny) a manylion yr wybodaeth sydd i'w rhoi gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ac i'r gwrthwyneb, ac i bleidiau.<br><br>Bwriad y polisi yw cynnwys darpariaeth mewn gorchymyn o dan adran 13 i fynd i'r afael â'r sefyllfa pan fydd ymgeisydd benywaidd yn marw yn ystod y broses enwebiadau, pan fo hyn yn effeithio ar gydymffurfiaeth â'r rheolau. Gall hyn olygu bod y rhestr yn cael ei thrin fel un sy'n cydymffurfio pe byddai wedi cydymffurfio, oni bai am y farwolaeth (h.y. i'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ystyried cydymffurfiaeth fel pe na bai'r farwolaeth wedi digwydd). Caniateir mynd i'r afael â sefyllfaoedd eraill sy'n cynnwys tynnu ymgeisydd oddi ar restr hefyd. Mae adran 7D(1)(a) yn ymdrin â hyn. |

***Adran 3 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc.***

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| Adran: 3<br><br>Disgrifiad o’r Pŵer:<br><br>Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys | Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau canlyniadol. Efallai y bydd rhai darpariaethau (neu ddarpariaeth arall o fewn y pŵer hwn) yn briodol am un o'r rhesymau a nodir yn y pŵer.<br><br>Y bwriad fyddai bod unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn cyd-fynd yn briodol â'r darpariaethau yn y Bil. |

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| darpariaeth ganlyniadol, ddeilliadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf (h.y. y Bil ar ôl iddo ddod i rym), o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi. Caiff y rheoliadau ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu deddfiadau. | |

***Adran 4 – Dod i rym***

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| Adran: 4 | Bydd adrannau 3, 4 a 5 o’r Bil yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.<br><br>Bydd adrannau 1 a 2 o'r Bil yn dod i rym ar ddiwrnod neu ddiwrnodau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn. Nid oes fawr o gyfle i oedi yn yr amserlen bresennol ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth i fod yn gymwys ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Os bydd oedi i'r Bil hwn sy'n mynd y tu hwnt i'r amser y darperir ar ei gyfer yn yr amserlen, bydd y |
| Disgrifiad o’r Pŵer:<br><br>Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n pennu'r | |

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| diwrnod y daw adrannau 1 a 2 i rym. Caiff gorchymyn o'r fath wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed a phennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. | pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion ddarparu bod prif ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym yn ddiweddarach. |